
# O Gwmpas 2018

## yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chefn gwlad Sir Ddinbych



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council



**Mae ein rhaglen 2018 yn cynnig ystod o ffyrdd i fwynhau'r dirwedd syfrdanol a threftadaeth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r cefn gwlad cyfagos.**


### Cysylltwch â ni

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads, Sir Ddinbych, CH7 5LH

01824 712757

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

denbighshirecountryside.org.uk
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
ridenorthwales.co.uk


**Chwiliwch amdanom ar y cyfryngau cymdeithasol**

- Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Parc Gwledig Loggerheads
- Beicio Gogledd Cymru
- Môr-wenoliaid Bach



**Eventbrite** Defnyddiwch eventbrite ar gyfer pob digwyddiad y gellir eu harchebu o flaen llaw **www.eventbrite.co.uk**

Symbolau **Teithiau Tywys** – Cofiwch wisgo'n addas ar gyfer y tywydd a'r tir a dod â bwyd a diod.

| | |
|---|---|
| **Hawdd** | taith gerdded fer ar lwybr wyneb caled neu weithgarwch teuluol hygyrch |
| **Cymedrol** | rhai darnau serth ac arwynebau rhydd |
| **Anodd** | hir ac egnïol, anwastad, tir llethrog |

Help **Cyfeirnod Grid** – www.gridref.org.uk
Rhowch y cyfeirnod grid yn y blwch chwilio, ac fe gewch fap.




**Mae cefn gwlad yn gallu bod yn ddiwrnod gwych allan gyda'ch ci, byddwch yn gyfrifol os gwelwch yn dda. Cadwch eich ci ar dennyn neu o dan reolaeth agos, codwch faw eich ci a chael gwared ohono yn gyfrifol.**

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau.**
Anfonwch eich sylwadau, syniadau ac awgrymiadau i **loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy / Clwydian Range and Dee Valley — North East Wales — Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales — Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council

# Awyr Dywyll

Yn 2016, dechreuodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy archwilio'r cyfleoedd i wella ansawdd eu hawyr dywyll ac maent ar genhadaeth i geisio ennill dynodiad priodol gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA).

Mae llygredd golau a achosir trwy ddefnyddio golau artiffisial mewn modd amhriodol neu ormodol yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i arsyllu awyr y nos.

Wyddoch chi fod yr awyr mewn rhannau o Fryniau Clwyd ymysg y tywyllaf yn y DU?

Mae dros 60% o'n bywyd gwyllt yn dibynnu ar dywyllwch i oroesi

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Awyr Dywyll
Dark Skies

I godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a mwynhad o awyr dywyll mae'r rhaglen hon yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau – edrychwch allan am y symbol hwn a chofiwch archebu!



© Chris Davies





# Diwrnodau Sgwter

Hoffech chi ymuno â'ch teulu neu'ch ffrindiau ar ddiwrnod allan ym Mharc Gwledig Loggerheads, ond eich bod yn tybio na allech gerdded hyd y llwybr?

Mae gan Barc Gwledig Loggerheads bellach sgwter addas i'r llwybrau i'r cyhoedd ei ddefnyddio ar lwybr glan yr afon. Mae'r sgwter ar gael ar y diwrnodau canlynol drwy archebu ymlaen llaw, neu os nad oes neb wedi'i archebu, gallwch ei fenthyg ar y diwrnod.

•22 Ebrill •11 a 13 Mai
•9 a 19 Mehefin •10 ac 16 Gorffennaf
•15 ac 21 Medi •11 Hydref

Os hoffech chi ddefnyddio'r sgwter ar ddiwrnod gwahanol, efallai y bydd modd i ni drefnu hynny. Cysylltwch â: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk / 01824 712757

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gweithio mewn partneriaeth gweithio mewn partneriaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru i gynnal digwyddiadau yn ein safleoedd partneriaeth.

**Dydd Mercher 21 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Dôl Fawr**

Cyfarfod: Cilfan troeadau'r Berwyn ar yr A5 tua'r dwyrain, SJ185433
Gwisgwch eich cotiau cynnes ar gyfer taith gerdded fer gyntaf y flwyddyn wrth i ni fwynhau Dyffryn Dyfrdwy o ongl newydd.

**23 Mawrth - 8 Ebrill**
**10:00 - 16:00**
**Helfa Wyau Pasg**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i fwynhau ein Llwybr Wyau Pasg. Gwobr i bawb sy'n gorffen. £2.50 y plentyn.

**Dydd Sadwrn 24 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Briallu**

Cyfarfod: Plas Newydd
Ymunwch â'r garddwr am daith gerdded yn gynnar yn y gwanwyn ymysg briallu Plas Newydd. Yn cynnwys briallen am ddim.

**Dydd Mawrth 27 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Helfa Basg Pwrs y Fôr-forwyn**

Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf, Shore Road, SJ090837
Helfa Basg ychydig yn wahanol. Yn hon, byddwn yn chwilio'r traeth am Byrsiau'r Fôr-forwyn. Casys wyau siarcod a chathod môr yw'r gwrthrychau yma sydd ag enw mor hyfryd. Archebwch le.

**30 Mawrth – 2 Ebrill**
**10:30 - 15:00**
**Llwybr y Pasg ym Mhlas Newydd**

Cyfarfod: Y Nant, Plas Newydd
Chwiliwch am y cliwiau ar dir Plas Newydd. £3 y pen. Gwobr am ei gwblhau.

**Dydd Sadwrn 31 Mawrth**
**11:00 - 15:00**
**Llwybr y Pasg yng Nghoed Moel Famau**

Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel Famau SJ174 613
Cwblhewch Lwybr y Pasg o amgylch Coed Moel Famau i hawlio eich gwobr! £2 o dâl parcio a £2 y plentyn i gymryd rhan.

**Dydd Gwener 6 Ebrill**
**06:00 - 09:00**
**Taith Gerdded Gynnar Gwylio Adar**

Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel Famau SJ174 613
I'r rheiny ohonoch sy'n hoff o wylio adar! Ymunwch â ni ar daith gerdded gynnar trwy goedwig a thros rostir i weld beth sydd yno. Efallai y byddwn yn ddigon ffodus i ddod ar draws y Grugiar Ddu'n clochdar (tâl parcio £2).
Archebwch le.

**Dydd Gwener 13 Ebrill**
**10:00 - 12:30**
**Golygfeydd a Synau'r Gwanwyn**

Cyfarfod: Ym maes parcio Ruthin Farmers, SJ 589 118
Dewch ar gylchdaith gerdded 4 milltir o Rhuthun, ar hyd 'Lady Bagot's Drive' i weld y gwaith parhaus sy'n digwydd yng Ngwarchodfa Natur Glasdir.
Archebwch le.

**Dydd Sul 15 Ebrill**
**11:00 - 16:00**
**Taith Tegid ar y T3**

Cyfarfod: Maes parcio Llandrillo SJ035372
Byddwn yn gwneud y gorau o'r siawns i deithio am ddim ar fws y T3 i Gynwyd cyn dringo at y cylch cerrig ar Foel Tŷ Uchaf. 8 milltir. Archebwch le.

**Dydd Mercher 18 Ebrill**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Nant y Pandy**

Gwesty'r Berwyn Arms, LL21 9EY
Dewch i fwynhau'r daith gerdded hyfryd hon drwy'r coetir i anturio drwy'r hen weithfeydd llechi.



**5 - 7 Mai**
**Gŵyl Gerdded Llangollen**
Profwch Ddyffryn Dyfrdwy gyda dewis gwych o deithiau cerdded
**llangollenwalkingfestival.co.uk**

Dydd Gwener 27 Ebrill
19:30 - 21:30
**Madfallod mewn Natur**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dysgwch bopeth am ein tair rhywogaeth o fadfallod dŵr cynhenid gyda chyflwyniad byr a thaith i Warchodfa Natur Leol Moel Findeg i ddilyn. Archebwch le.

Dydd Mercher 2 Mai
9:30 - 15:00
**Diogelu Môr-wenoliaid Bach**
Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf, Shore Road SJ090837
Yng Ngronant bellach mae'r nythfa fwyaf o Fôr-wenoliaid Bach yn y DU. Ymunwch yn y gwaith ffensio sy'n digwydd o amgylch y safle er mwyn helpu i gynnal y stori gadwraeth lwyddiannus hon.

Dydd Iau 10 Mai
10:00 - 15:00
**Taith Gerdded 5 Milltir Llyn Brenig**
Cyfarfod: Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, LL21 9TT
Mae taith gerdded gyntaf ein her Blwyddyn y Môr yn dechrau yn yr ucheldiroedd o amgylch Llyn Brenig. Gweler tudalen 27 am am ragor o wybodaeth.

Dydd Mercher 16 Mai
10:00 - 12:00
**Taith Gerdded Fer Gweithfeydd Plwm y Mwynglawdd**
Cyfarfod: Maes parcio'r Mwyngloddiau Plwm, SJ276510
Dewch am dro ar hyd ein llwybr Milltiroedd Cymunedol newydd o amgylch yr hen weithfeydd plwm a phentref y Mwynglawdd.

Dydd Mawrth 8 Mai
10:00 - 13:00
**Taith Gerdded Bywyd Gwyllt yn Hillside, Prestatyn**
Cyfarfod: Maes parcio golygfan Gwaenysgor SJ075 819
Ymunwch â Cheidwad yr AHNE am daith gerdded i ganfod cynefinoedd arbennig Hillside ym Mhrestatyn. Archebwch le.

Dydd Mercher 16 Mai
10:00 - 16:00
**Llwybr Gogledd y Berwyn**
Cyfarfod: Maes parcio Heol y Farchnad, Llangollen, LL20 8RB
Ymunwch â Walk About Wrexham am daith gerdded 15 milltir ar hyd Llwybr Gogledd y Berwyn, gyda golygfeydd rhyfeddol o ran ddeheuol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Bydd cludiant ar gael o Langollen i Gorwen.
www.walksinwrexham.com

Dydd Gwener 18– dydd Sul 20 Mai 2018
**Gŵyl Gerdded Prestatyn a Bryniau Clwyd**
prestatynwalkingfestival.co.uk

Dydd Sadwrn 19 Mai
11:00 - 15:00
**Cyfeiriannu**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Galwch i mewn i weld pa mor gyflym y gallwch chi orffen ein her gyfeiriannu.



**Dydd Sadwrn 19 Mai**
**10:00 - 12:00**
**Taith o Amgylch yr Ardd**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Taith o amgylch y tir a'r gerddi gyda'n garddwr.

**Dydd Mercher 23 Mai**
**18.30 - 20.00**
**Hanes Plas Trefor**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Ymunwch â ni am olwg hynod ddiddorol ar hanes Plas Trefor gyda'r hanesydd lleol, Pam Williams Hughes. Archebwch le.

**26 Mai – 3 Mehefin**
**10:30 - 15:00**
**Helfa Natur**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Cwblhewch gwis llwybr natur ar diroedd Plas Newydd am gyfle i ennill bathodyn. £3 yr un.

**Dydd Llun 28 Mai**
**11:00 - 14:00**
**Helfa Drychfilod!**

Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Helfa natur dywysedig o amgylch Gardd yr Arglwydd er mwyn gweld a dysgu am y trychfilod diddorol sy'n byw yma. Addas i bob oedran, rhaid i bob plentyn ddod yng nghwmni oedolyn. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**Dydd Gwener 1 Mehefin**
**10.30am - 12.30pm & 1.30pm - 3.30pm**
**Diwrnod yr Ail Ryfel Byd**

Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Dewch i ddarganfod mwy am yr Ail Ryfel Byd ar safle hanesyddol Carchar Rhuthun. Cewch gyfarfod merch o fyddin y tir a gwneuthurwr arfau a dysgu am gyfraniad arbennig y carchar yn ystod y rhyfel. Addas bob oedran. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**Dydd Mercher 6 Mehefin**
**20:30 - 22:30**
**Wythnos Natur Cymru –Bywyd y nos ac awyr dywyll ar Foel Famau**

Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel Famau SJ174 613



Taith gerdded gyda'r hwyr i weld bywyd gwyllt sy'n byw yn y Parc Gwledig a'r awyr dywyll uwchben.

**Dydd Iau 7 Mehefin**
**20:30 - 23:00**
**Pen y Pigyn gyda'r nos**



Cyfarfod: Prif faes parcio Corwen, LL21 0DN
Dewch i ddarganfod beth sy'n dod i'r golwg gyda'r nos - rydyn ni'n gobeithio am ystlumod, gwyfynod a throellwyr.






**Dydd Mawrth 5 Mehefin**
**10:00 - 15:00**
**Creu ffens bleth**

Cyfarfod: Maes parcio Marsh Tracks, Glan Morfa
Ymunwch â ni i greu sawl ffens bleth i helpu i nodi'r gyffordd rhwng dechrau'r llwybr beicio mynydd ar ben y bryn a'r llwybr i lawr i'r tŷ crwn.

**Dydd Mawrth 5 &**
**Dydd Mercher 6 Mehefin**
**10:00 - 15:00**
**Codi waliau cerrig**

Cyfarfod: Maes parcio gogledd Coed Nercwys, SJ218 593
Dysgwch y dechneg draddodiadol o adeiladu wal gerrig. Archebwch le.



## Gweithgareddau a hwyl i'r teulu

**Bob dydd Mawrth**
**ym mis Mehefin**
**15:30 -17:00**
**Plas Newydd, Llangollen**

Gweithgareddau hwyliog ar ôl ysgol ar dir Plas Newydd.

# Antur Bach ar ôl Ysgol

**15:45 - 17:00**
**Parc Gwledig Loggerheads**

Archwilio a dysgu am y byd naturiol gyda'r Ceidwad ym Mharc Gwledig Loggerheads.

4 sesiwn fer a gwahanol weithgareddau ym mhob digwyddiad. Dewch draw i un neu'r pedair! Archebwch le.



**Dydd Iau**
**7, 14, 21 & 28 Mehefin**

**Dydd Sadwrn 9 Mehefin**
**10:00 - 17:00**
**Diwrnod Natur yn Nantclwyd y Dre**
Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Dewch i archwilio Gerddi Nantclwyd a'n helpu ni gyda'n Blits Bioamrywiaeth. Siaradwch â'r arbenigwyr a dysgwch fwy am y creaduriaid a'r planhigion sydd yn Nantclwyd a sut y gallwch chi helpu bywyd gwyllt yn eich gardd. Beth wnewch chi ei weld yma?
Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**Gŵyl Gerdded Wrecsam**
**10 - 16 Mehefin**
Dewch i fwynhau wythnos o deithiau cerdded AM DDIM yn gweld harddwch a hanes Gogledd-ddwyrain Cymru ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
**www.walksinwrexham.com**

**Dydd Mawrth 12 Mehefin**
**9.30 - 12:00**
**Dydd Mawrth Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes parcio Gronant Isaf, Shore Road SJ090837
Taith gerdded dywysedig i un o berlau naturiol Sir Ddinbych gyda Swyddog Ymgysylltu a Phobl y Fôr-wennol Fechan – wedi'i ariannu gan brosiect LIFE+ yr UE. Archebwch le.

**Dydd Mercher 13 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Craig y Forwyn**
Cyfarfod: Maes parcio Pafiliwn Llangollen am lifft i fyny, LL20 8SW
Ymunwch â ni am daith gerdded ar hyd creigiau arbennig Eglwyseg ac i ddarganfod mwy am ein rhywogaeth unigryw – Cerddinen Llangollen.

**Dydd Mawrth 19 Mehefin**
**10:00 - 14:00**
**Rhodio ar y Rhostir**
Cyfarfod: Y gilfan gyferbyn â Ponderosa LL20 8DR
Dewch i ymuno â ni am daith (tua!) 5 milltir dros fynyddoedd godidog Llandysilio. Gallwch ddisgwyl llethrau serth, ond fe gewch olygfeydd anhygoel am ddod!





**Dydd Sadwrn 23 Mehefin**
**9.30 - 12:00**
**Dydd Sadwrn Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes parcio Gronant Isaf, Shore Road SJ090837
Taith gerdded dywysedig i un o berlau naturiol Sir Ddinbych gyda Swyddog Ymgysylltu a Phobl y Fôr-wennol Fechan – wedi'i ariannu gan brosiect LIFE+ yr UE. Archebwch le.

**Dydd Llun 25 Mehefin**
**14:00 - 15:00**
**Cwrdd â'r Garddwyr**
Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Beth fyddai gardd heb ei garddwyr? Dewch i gyfarfod y rhai sy'n gweithio'n galed i gadw gerddi Nantclwyd y Dre'n iach ac yn ffynnu.

Gofynnwch gwestiynau a cheisiwch gyngor ac ysbrydoliaeth gan ein tîm ymroddgar a chyfeillgar. Bydd y pnawn yn cynnwys cerdded o amgylch y safle a sesiwn holi ac ateb i ddilyn yng Ngardd y Gegin. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**Dydd Mercher 27 Mehefin**
**10:00 - 14:00**
**Am Dro Haf Bryn Alun**
Cyfarfod: Coed Nercwys SJ 218 593
Cylchdaith 5 milltir o Goed Nercwys yn ymweld â chalchbalmant eithriadol Bryn Alun. Archebwch le.

**Dydd Gwener 27 Mehefin**
**18:00 - 20:00**
**Glaslunio gwyrdd ym Mhen y Pigyn**
Cyfarfod: Prif faes parcio Corwen
Rhowch gynnig ar ffotograffiaeth gwyrddlas gan ddefnyddio siapiau naturiol o'r goedwig. £4. Archebwch le.

**Yng Ngharchar Rhuthun**
**ruthingaol.co.uk**

**Gorffennaf ac Awst - Bob dydd yn ystod amseroedd agor**

**Llawer o weithgareddau a chrefftau i gadw'r teulu i gyd yn brysur yn ystod gwyliau'r haf. Addas i bob oedran.**

# Hwyl Gwyliau'r Haf



**Dydd Sadwrn 30 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Taith o Amgylch yr Ardd**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Darganfyddwch ein cyfrinachau am dir a gerddi Plas Newydd gyda'n garddwr.

**Dydd Iau 5 Gorffennaf**
**9:30 - 12:00**
**Dydd Iau Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes parcio Gronant Isaf, Shore Road SJ090837
Taith gerdded dywysedig i un o berlau naturiol Sir Ddinbych gyda Swyddog Ymgysylltu a Phobl y Fôr-wennol Fechan – wedi'i ariannu gan brosiect LIFE+ yr UE. Archebwch le.

**Dydd Mercher 11 Gorffennaf**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Llandrillo**
Cyfarfod: Llandrillo car park, SJ 035 372
Anturiwch ar hyd ein llwybr Milltiroedd Cymunedol o amgylch dyffryn Ceidiog.

**Dydd Llun 16 Gorffennaf**
**12:00 - 13:00**
**Cyflwyniad i Ddylunio Gerddi yng Ngerddi Nantclwyd y Dre**
Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Wedi'i arwain gan ein garddwr Hayley Proudfoot, bydd Hayley yn eich cyflwyno i'r gerddi sydd newydd gael eu hailwampio yn Nantclwyd y Dre. Mae'n cynnwys sut i gynllunio eich darn o dir, adnabod planhigion, a'r planhigyn iawn yn y lle iawn. Sesiwn holi ac ateb.
£2 y pen (i'w dalu ar y diwrnod).



**21 Gorffennaf – 2 Medi**
**10:00 - 16:00 Every Day**
**Llwybr yr Haf**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i gwblhau ein llwybr her yr haf a hawlio eich gwobr. £2.50 y plentyn.

**Dydd Sadwrn 21 Gorffennaf**
**10:30 - 16:00**
**Diwrnod Hwyl i'r Teulu**
**Coed Moel Famau**
Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel Famau SJ174 613
Diwrnod o weithgareddau hwyliog! Bydd yno badlo yn y nant, crefftau i blant, adeiladu cuddfan, teithiau tywys, arddangosfeydd, gwybodaeth a chynnyrch bwyd lleol (£2 o dâl parcio).

**Dydd Mawrth 24 Gorffennaf**
**11:00 - 13:00**
**Trochi yn yr Afon yn Gro Isa**
Cyfarfod: Maes parcio Pafiliwn Chwaraeon Corwen, SJ079437
Dewch i chwilio am ambell greadur arbennig. Beth am ddod â phicnic yn ogystal â'ch welintons?

**Dydd Mercher 25 Gorffennaf**
**10:00 - 15:00**
**Adlewyrchyddion Bywyd Gwyllt**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch draw i greu eich adlewyrchydd haul eich hun sy'n adlewyrchu bywyd gwyllt y parc.



**Dydd Mercher 25 Gorffennaf**
**14:00 - 16:00**
**Pnawn Agored yng Nghloddfeydd Archeolegol Bryngaer Penycloddiau**
Cyfarfod: Maes parcio Llangwyfan SJ139668
Mae hwn yn gyfle i ymweld â'r gwaith cloddio sy'n digwydd ym mryngaer Oes yr Haearn Penycloddiau. Dewch i ddarganfod beth sydd wedi bod yn digwydd eleni.

**Dydd Mercher 25 Gorffennaf**
**10.30 - 12.30 and 13:00 - 15:00**
**Ar Gamera**

Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Cyfle i greu eich poster ‘Yn Eisiau’ eich hun. Daliwch yr eiliad mewn lluniau a phrofwch fywydau’r carcharorion. Costau mynediad arferol. £1 ychwanegol ddewisol am bob poster.

**Sul 29 Gorffennaf**
**11:00 - 16:00**
**Diwrnod agored yng nghloddfeydd archeolegol Moel y Gaer, Bodfari**

Cyfarfod: Moel y Gaer, SJ 095 710
Mae hwn yn gyfle i ymweld â’r gwaith cloddio sy’n digwydd ym mryngaer Oes yr Haearn Moel y Gaer, Bodfari. Dewch i ddarganfod beth sydd wedi bod yn digwydd eleni.

**Dydd Mawrth 31 Gorffennaf**
**10:00 - 15:00**
**Gwlad Gwlân**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i greu eich tirlun eich hun gan ddefnyddio gwlân, yn adlewyrchu’r wlad hardd rydyn ni’n byw ynddi.

## Sinbad y Llongwr

**Dydd Gwener 3 Awst 19:30 - 22:00**
**Plas Newydd, Llangollen**
Cynhyrchiad arall egnïol ac anturus iawn gan Off the Ground Theatre. Ar gyfer prisiau a pherfformiadau ewch i - offtheground.co.uk



**Dydd Llun 6 Awst**
**11.30 - 14:30**
**Marchogion a Thywysogesau**

Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Dewch i ymuno yn yr hwyl yn Nantclwyd ar y diwrnod chwarae hwn i'r teulu. Gweithgareddau a gemau – dewch mewn gwisg ffansi a bydd cyfle i ennill gwobr. Wedi'i gynnwys yn y tâl mynediad.

**Dydd Mawrth 7 Awst**
**11:00 - 14:00**
**Helfa Trychfilod!**

Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Helfa natur dywysedig o amgylch Gardd yr Arglwydd er mwyn gweld a dysgu am y trychfilod diddorol sy'n byw yma. Addas i bob oedran. Rhaid i bob plentyn ddod yng nghwmni oedolyn. Wedi’i gynnwys yn y pris mynediad.

**Dydd Mercher 8 Awst**
**11:00 - 13:00**
**Bore Agored yng Nghloddfeydd Archeolegol Penycloddiau**

Cyfarfod: Maes parcio Llangwyfan SJ 139668
Mae hwn yn gyfle i ymweld â’r gwaith cloddio sy’n digwydd ym mryngaer Oes yr Haearn Penycloddiau. Dewch i ddarganfod beth sydd wedi bod yn digwydd eleni.



**Dydd Mercher 8 Awst**
**21:00 - 22:30**
**Taith Gerdded Ystlumod Diserth**



Cyfarfod: Maes parcio llwybr Diserth-Prestatyn, Diserth
Dewch am dro o amgylch safleoedd cefn gwlad Diserth i weld pa rywogaethau ystlumod y gallwn eu darganfod. Cofiwch ddod â thortsh. Archebwch le.


**Dydd Sul 12 Awst**
**21:00 - 23:00**
**Meteorynnau yn y Nos**



Cyfarfod: Maes parcio Canolfan Hamdden Corwen, LL21 9RW
Noson o sêr gwib yng Nghaer Drewyn. Dewch â thortsh, blanced a diod poeth.

**Dydd Llun 13 Awst**
**11:00 - 12:00**
**Planhigion â Phwrpas**

Cyfarfod: Nantclwyd y Dre
Dewch i ddysgu am rai o’r planhigion sy’n tyfu yng Ngardd yr Arglwydd heddiw – byddwn yn trafod sut y byddai’r rheiny a phlanhigion eraill wedi cael eu defnyddio yn yr Oesoedd Canol. £2 y pen (ar y diwrnod). Am ddim os byddwch wedi talu'r tâl mynediad.



**Dydd Llun 13 Awst**
**10:00 - 12:00**
**Llu Llus**

Cyfarfod: Maes parcio golygfan Penbarras ger Moel Famau
SJ174 613
Dewch â'r plant a thwb am dro gyda'r Ceidwad ar y rhostir i hel y llus bach blasus! Ewch â nhw adref a'u bwyta fel y maent neu wneud myffins, crempogau, jam neu unrhyw ryseitiau eraill y gallwch ddod o hyd iddynt. Archebwch le.

**Dydd Mawrth 14 Awst**
**13:00 - 15:00**
**Trochi ac Adeiladu Den yn y Nant**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Gwisgwch eich welintons a dewch i weld beth sy'n byw yn y nant – darperir rhwydi. Archebwch le.

**Dydd Mercher 15 Awst**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Ponderosa**

Cyfarfod: Gyferbyn â Ponderosa
LL20 8DR
Dewch i gerdded y daith ar yr erchwyn am olygfeydd gwych i lawr y dyffryn.

**Dydd Iau 23 Awst**
**20:00 - 22:00**
**Ystlumod ym Mhobman**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads



Cyfle i ddysgu am ystlumod gyda chyflwyniad byr cyn taith gerdded hawdd o filltir gan ddefnyddio teclynnau canfod ystlumod a'r hyn rydym wedi ei ddysgu! Dewch â thortsh efo chi. Archebwch le.

**Dydd Mercher 29 Awst**
**10.30 - 13:00 and 14:00 - 16:00**
**Cyfrinachau'r Carchar**

Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Dewch i glywed straeon y carchar, i'r hen a'r ifanc. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**Dydd Sadwrn 1 a dydd Sul 2 Medi**
**Gŵyl Gerdded Corwen**
Pafiliwn Chwaraeon Corwen,
Lôn Werdd
Dewch i Gorwen am amrywiaeth wych o deithiau cerdded i bawb.
cymraeg.corwenwalkingfestival.co.uk

**Dydd Iau 6 Medi**
**19:00 - 21:00**
**Ystlumod ac awyr dywyll**

Cyfarfod: Maes parcio Llangwyfan



SJ1389 6684
Taith gerdded i fyny drwy Goed Llangwyfan ac i fryngaer Penycloddiau gyda Cheidwad yr AHNE i wylio'r machlud a gweld y bywyd gwyllt. Archebwch le.




**Cerdded yn olion traed Merched**
**Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen**

Dydd Gwener 7 Medi / 13:00 - 14:00 / Pentrip, Cherry Tree Farm a Pengwern Mill Farm

Dydd Sadwrn 22 Medi / 13:00 - 15:00 / Coedwig Pen y Coed a Dyffryn Pengwern

Dydd Gwener 5 Hydref / 11:00 - 14:00 / Blaen Bache, Allt y Badi a Fferm Pen-lan

Dydd Sul 14 Hydref / 10:30 - 14:30 / Y Tŵr, Eglwys Llandysilio ac Abaty Glyn y Groes.



Outstanding Week 15-23rd September 2018

Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Friends of the Clwydian Range and Dee Valley



**I Ddathlu'r Wythnos Eithriadol (15-23 Medi), rydyn ni'n arwain 3 taith gerdded ar hyd pob darn o Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen.**

Bydd y cyfanswm o 11 milltir yn cael eu cerdded dros dridiau. Bydd pob taith gerdded yn mynd allan ac yn dychwelyd ar lwybr llusgo'r gamlas sy'n wastad ac yn addas i bawb. Os gwnewch chi gwblhau'r tair taith, byddwch yn teithio tua 22 o filltiroedd. Mae rhai o'r teithiau'n hygyrch i o leiaf ddychwelyd rhan o'r ffordd ar gludiant cyhoeddus. Bydd y teithiau cerdded yn cael eu harwain gan Swyddog yr AHNE a'u cefnogi gan Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Taith 1 - Ddydd Llun 17
Cyfarfod am 10am y tu allan i faes parcio Maes Llandysilio (talu ac arddangos) GR 198433. 8 milltir.

Taith 2 - Ddydd Mercher 19 Cyfarfod:10am y tu allan i Ganolfan Wybodaeth y Draphont Ddŵr GR 271422. Tua 6 milltir.

Taith 3 - Dydd Gwener 21
Cyfarfod am 10am y tu allan i Ganolfan Wybodaeth y Draphont Ddŵr GR 271422. Tua 8 milltir.

**www.landscapesforlife.org.uk**
**www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**
**#wythnoseithriadol**



**Dydd Sadwrn 8 Medi**
**10:00 - 12:00**
**Gweithdy Tocio Planhigion**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Dysgwch sut i docio planhigion gyda'r garddwr ym Mhlas Newydd – cyfarfod yn yr ystafelloedd te.


**Dydd Mercher 12 Medi**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Plas Trefor**
Tafarn y Sun, Trefor, LL20 8HH
Dewch i weld y tirwedd hanesyddol o amgylch Plas Trefor.

**Dydd Gwener 21 Medi**
**10:00 - 13:00**
**Cerrig Corwen**
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Cyfarfod: Prif faes parcio Corwen
Cymerwch olwg nes ar gerrig adeiladu Corwen gyda'r Daearegwr. Archebwch le.

## Penwythnos Gwyllt y Rhyl

**Dydd Sadwrn 22 Medi**
**11:00 - 16:00**
**Glan Morfa, Y Rhyl, SJ 004 798**
**Dewch i fwynhau'r gwyllt a chefn gwlad ar deithiau cerdded. Mae Penwythnos Gwyllt y Rhyl yn dychwelyd yn 2018 gyda llawer o weithgareddau am ddim i'r teulu oll eu gwneud.**





**Dydd Mawrth 9 Hydref**
**18:00 - 20:00**
**Tynnu Llun â Goleuni ym Mhen y Pigyn**
Cyfarfod: Canolfan Ni, Corwen, LL21 9BU
Pam gadael i blant gael yr hwyl i gyd? Mae croeso i oedolion a phlant dros 11 ddod i gael tro ar dynnu llun gyda golau yn y goedwig. £4. Archebwch le.

**Dydd Mercher 17 Hydref**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Pen y Pigyn**
Cyfarfod: Prif faes parcio Corwen
Mwynhewch liwiau'r hydref a'r golygfeydd gwych.

**Dydd Mercher 17 Hydref**
**10:00 - 13:00**
**Cylchdaith Gerdded Graigfechan**
Cyfarfod: Three Pigeons, Graigfechan
Ymunwch â chylchdaith gerdded 6 milltir o bentref Graigfechan, sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ac sydd â golygfeydd o Ddyffryn Clwyd a thu hwnt. Beth am fwynhau cinio tafarn gyda ni yn y Three Pigeons wedyn? Archebwch le.



**20 – 31 Hydref**
**11:00 - 14:30**

## LLWYBR CALAN GAEAF

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Dilynwch y llwybr arswydus, casglwch y cliwiau iasol i ennill eich gwobr.
£3 yr un.

**Dydd Mawrth 23 Hydref**
**18:30 - 20:00**
**Angau ar y Gamlas**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Byddwch yn barod am Galan Gaeaf gyda straeon am ddamweiniau, meddwdod, twpdra a llofruddiaethau gan yr hanesydd lleol ac awdur Death on the Cut, Peter Brown. Archebwch le.

**Dydd Iau 25 Hydref**
**10:00 - 14:00**
**Rhodio yn yr Hydref**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cylchdaith 6 milltir i fwynhau arddangosfa anhygoel natur o liwiau gwych a golygfeydd hardd. Archebwch le.

**27 Hydref – 2 Tachwedd**
**10:00 - 16:00**

## Wythnos Calan Gaeaf yn y Carchar

Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Wythnos o hwyl Calan Gaeaf yng Ngharchar Rhuthun. Gwisgwch eich gwisg frawychus orau ac ymunwch â ni am gelf a chrefft llawn hwyl a gweithgareddau i'r teulu oll.
Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**27 Hydref – 4 Tachwedd**

## HELFA CALAN GAEAF

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cwblhewch ein Helfa Calan Gaeaf ddychrynllyd i hawlio'ch gwobr.
£2.50 y plentyn.

**Dydd Mercher 31 Hydref**
**15:00 - 17:00**
**Te Parti Gwrachod**

Cyfarfod: Y Caban, Plas Newydd
Straeon, crefftau, gemau a the parti llawn arswyd gyda gwrachod a dewiniaid Plas Newydd. £6 y pen. Archebwch le.

**Dydd Mercher 14 Tachwedd**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer y Waun**

Cyfarfod: Caffi Glynwylfa, y Waun, LL14 5BS
Ymunwch â ni ar gyfer taith gerdded fer ola'r flwyddyn dros draphont ddŵr y Waun.

**Dydd Mercher 5 Rhagfyr**
**9:30 - 15:30**
**Cystadleuaeth Plygu Gwrych Flynyddol i Wirfoddolwyr**

Cyfarfod: I'w gadarnhau
Ymunwch fel rhan o dîm i blygu darn o wrych. Mae plygu gwrych yn grefft bwysig er mwyn ailfywiogi gwrychoedd – un o'n cynefinoedd pwysicaf.

**Dydd Sadwrn 8 Rhagfyr**
**13:00 - 15:00**
**Te Parti Siôn Corn**

Cyfarfod: Y Caban, Plas Newydd
Ymunwch â Siôn Corn ar gyfer ei de parti ac i greu llusernau am 3pm. £6 y plentyn.

**Dydd Sadwrn 15 Rhagfyr**
**16:30 - 18:00**
**Parêd Llusernau a Charolau Nadolig**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Parêd llusernau am 4.30pm a charolau i ddilyn o flaen y tŷ. Gwobrau i'r llusernau gorau.




**15 & 22 Rhagfyr**

## Siôn Corn

**ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i gyfarfod Siôn Corn, clywed stori Nadolig a chael anrheg gydag Ymddiriedolaeth Plas Derw. Oedran darged 4-7.
**Amseroedd: 11yb, 12yh, 13:30, 14:30 & 15:30**
£10 y Plentyn. I archebu ffoniwch 01352840955, ebostiwch forestschool@gmail.com



# Gwirfoddoli



Mae cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i wirfoddoli ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chefn gwlad Sir Ddinbych i bob oedran.

Mae tasgau'n amrywiol o adeiladu waliau cerrig sych i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Dewch draw i un o'n digwyddiadau i ddysgu sgil newydd?

**Casglwch eich rhaglen wirfoddoli heddiw.**


Volunteer Programme

October 2017 to March 2018

Am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eich ardal edrychwch ar:

www.Dewis.Cymru www.Dewis.Wales





# Criw Cefn Gwlad

**Mae Criw Cefn Gwlad yn berffaith ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd am ddysgu mwy am y dirwedd anhygoel sydd ar garreg eu drws ac sy'n poeni dim am faeddu eu dwylo wrth weithio ac archwilio yn yr awyr agored.**

Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Friends of the Clwydian Range and Dee Valley

# Dewch yn Gyfaill

Os ydych yn caru Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy neu os hoffech ddarganfod mwy am yr ardal a'i chadw'n ddiogel, ymunwch â Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – rydym yn helpu pobl i fwynhau, canfod a dysgu am y dirwedd arbennig hon.





Am ragor o wybodaeth ewch i **www.friends.cymru** neu ebostiwch **hello@friends.cymru**



# Cerddwch, Teimlwch y Gwahaniaeth

## Mwy Iach, Heini a Hapus

Ymunwch ag un o'r teithiau cerdded wythnosol rheolaidd hyn i wella eich iechyd, cynyddu eich ffitrwydd ac ailwefru eich lles. Mae cerdded yn rheolaidd o fudd i reoli pwysau, yn cadw eich calon yn iach, gan leihau'r risg o ddiabetes math 2 a rhai mathau o ganser.

| Dydd Llun |
|---|
| **Y Waun** / 09:30 / ffoniwch 01691 778666 ar gyfer y pwynt cyfarfod, 60 mun LL14 5NF |
| **Llanelwy** / 10:30 / Lawnt Fowlio taith gerdded 90 munud LL17 0RQ |
| **Gwaenysgor** / 11:00 / Neuadd Bentref taith gerdded 2 awr LL186LG |
| **Prestatyn** / 1:45 / Sinema Scala 40 mun LL19 9LR |
| **Yr Orsedd** / 2:00 Burton Weir wrth y danffordd taith 60 mun |

| Dydd Mawrth |
|---|
| **Corwen** / 09:30 / Canolfan Ni 1awr LL21 0DP |
| **Dyfroedd Alun** / 2:00 pm / maes parcio ochr Llai 75-90 mun |
| **Dyserth** / 11:00 / Canolfan Gymunedol 2awr LL18 6LP |

| Dydd Mercher |
|---|
| **Llanelwy** / 10:30 / Lawnt Fowlio taith gerdded 90 mun LL17 0RQ |
| **Llangollen** / 10:30 / Canolfan Iechyd hyd at 60 mun LL20 8NU |
| **Corwen** / 1pm / Canolfan Ni 2awr LL21 0DP |

| Dydd Iau |
|---|
| **Rhuddlan** / 11:00 / Eglwys Fethodistaidd, Stryd Gwindy 120 mun LL18 5PU |
| **Parc Acton** / 11:00 / Eglwys Sant Ioan CP, Rhodfa Herbert Jennings LL12 7YF 50 mun |
| **Llai** / 11:00 / Canolfan Lles y Glowyr, hyd at 75 mun LL12 0TH |

| Dydd Gwener |
|---|
| **Y Rhyl** / 12:30 Pwll Brickfield 90 mun LL18 2YR |

Mae teithiau cerdded rheolaidd ar gael o Lanasa a Phrestatyn. Am ragor o fanylion ffoniwch 01824 708396.

Troedio CLWYD Walks

Cerdded Walk





# Her y Mynydd at y Môr Clwyd

**Fel rhan o Flwyddyn y Môr yng Nghymru yn 2018 bydd y gyfres hon o heriau yn mynd â ni o gyflwyniad yn Llyn Brenig i amryw o bwyntiau ar hyd Afon Clwyd wrth iddi lifo ar hyd cwrs 35 milltir, gan ollwng 1,200 troedfedd i draeth enwog y Rhyl.**

Bydd gwahanol fywyd gwyllt i'w weld ar hyd y ffordd ac efallai y byddwn yn ddigon lwcus i weld rhywogaeth y mae'r afon yn adnabyddus amdano, sef brithyll y môr, neu'r Sewin yn lleol.

Ymunwch â ni ar y dyddiau canlynol i gwblhau'r her gyffrous hon.

**I gael gwybod amseroedd a mannau cyfarfod, ffoniwch Barc Gwledig Loggerheads ar 01824 712757 neu dilynwch ni ar**

- Dydd Iau 10 Mai
  Brenig
- Dydd Gwener 8 Mehefin
  Taith Brenig o Felin y Wig
- Dydd Iau 12 Gorffennaf
  Rhewl, Milltiroedd Cymunedol Clywedog
- Dydd Iau 16 Awst
  Brwcws, Dinbych, Llwybr Hiraethog
- Dydd Iau 13 Medi
  Marine Lake



# AR DY FEIC!

O lwybrau camlas esmwyth i gyrsiau serth difrifol a llwybrau naturiol a phwrpasol beicio mynydd i anturiaethau beicio ffordd epig, mae popeth ar gael yma yng Ngogledd Cymru.

Ar wefan **beiciogogleddcymru.co.uk** cewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am lwybrau a chyfleusterau. Cadwch at y llwybrau cyfreithiol ac ystyriwch ddefnyddwyr eraill wrth feicio.

@ridenorthwales

Beicio Gogledd Cymru yw'r wefan orau am lwybrau beicio a chyfleusterau. Edrychwch ar y wefan neu lawrlwythwch yr ap am ddim i'ch ffôn i gael eich llwybrau heddiw.

## ONEPLANET ADVENTURE

Coed Llandegla,
LL11 3AA

Fel un o ganolfannau llwybrau mwyaf blaenllaw y DU, disgwyliwch gyrsiau gwefreiddiol llawn adrenalin. Cewch fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau, cyrsiau a mwy yn:

oneplanetadventure.com
OPALlandegla
oneplanetadventure

## ONE GIANT LEAP

Llangollen, LL20 8AR

Nid yw cymryd rhan i'r gwangalon, ond mae gwylio yn llawer o hwyl! Dewch yn aelod o glwb OGLL am siawns i feicio i lawr y llwybrau serth pan nad oes unrhyw ddigwyddiadau ymlaen yno

onegiantleapllangollen.co.uk
onegiantleap.llangollen

## MARSH TRACKS

Y Rhyl, LL18 2AD

Mae gan Marsh Tracks bopeth o lwybrau beiciau BMX a beiciau ffordd a 2km o lwybrau sgiliau beicio mynydd!

marshtracks.co.uk
dragonridersbmxclubrhyl.co.uk
MarshTracks